

Strategaeth iechyd meddwl a llesiant meddyliol ddrafft: Asesiad o'r effaith ar y Gymraeg

Cymraeg 2050 yw ein strategaeth genedlaethol ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn erbyn 2050.

Mae Llywodraeth Cymru yn llwyr ymroddedig i'r strategaeth newydd, gyda tharged o filiwn o siaradwyr wedi'i gynnwys yn ei Rhaglen Lywodraethu. Mae iaith Gymraeg ffyniannus hefyd yn cael ei chynnwys fel un o'r 7 nod llesiant yn Neddff Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.


Mae gennym hefyd rwymedigaeth strategol i ystyried effaith lawn ein gwaith ar y Gymraeg. Mae hyn yn golygu y dylai unrhyw bolisi gan Lywodraeth Cymru ystyried sut y mae ein polisiau yn effeithio ar yr iaith a'r rheini sy'n ei siarad.

Mae tair thema gydberthynol i [Strategaeth Cymraeg 2050](#):

1. Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg.
2. Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg.
3. Creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun.

Mae'r penawdau o dan bob thema yn amlinellu'r gwahanol fathau o weithgareddau a allai effeithio ar yr iaith.

Yn gyffredinol, os yw'n bosibl y gallai eich polisi gael effaith ar bobl, bydd yn cael rhyw fath o effaith ar siaradwyr Cymraeg ac ar y Gymraeg.



1. Cyfeirnod yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg (a gwblhawyd gan Dîm Safonau'r Gymraeg, e-bost: Safonau.Standards@llyw.cymru):

03/12/2023

A yw'r cynnig yn cysylltu'n glir â strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg? – [Cymraeg 2050 Miliwn o siaradwyr a'r Rhaglen Waith gysylltiedig ar gyfer 2021-2026?](#) [Cymraeg 2050 rhaglen waith 2021-2026](#)

Cefndir

Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol (2024-2034) newydd ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus. Roedd yr Asesiad Effaith hwn yn ystyried effeithiau'r strategaeth newydd ar y Gymraeg.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn nodi'r dull o wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol – a gwneud i gyrrff cyhoeddus feddwl yn fwy hirdymor, gan geisio atal problemau cyn iddynt ddod i'r amlwg. Wrth wneud hynny, mae'n nodi nodau llesiant, gan gynnwys Cymru iachach a Chymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. Mae gan iechyd a gofal cymdeithasol rôl allweddol i'w chwarae wrth gyflawni'r nod hwn.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru [raglen waith 2021-2026 Cymraeg 2050](#) ar gyfer y Gymraeg a'i nod yw cynyddu nifer y bobl sy'n siarad ac yn defnyddio'r iaith. Mae darparu gwasanaethau dwyieithog yn flaenoriaeth allweddol, ac fe'i cefnogir gan Safonau'r Gymraeg.

Mewn perthynas ag iechyd, mae'r fframwaith strategol [Mwy na geiriau: cynllun y Gymraeg mewn iechyd a gofal cymdeithasol](#) yn ceisio cryfhau gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol drwy gyfrwng y Gymraeg.¹ Mae [Mwy Na Geiriau: Cynllun Pum Mlynedd \(2022-2027\)](#) yn parhau i nodi defnyddwyr gwasanaethau iechyd meddwl fel un o'r grwpiau blaenoriaeth ac mae'n cydnabod bod angen gwneud mwy i wella argaeledd ac ansawdd y gwasanaethau hyn, "nid dim ond er mwyn cydymffurfio â deddfwriaeth, ond er diogelwch a pharch i gleifion".

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn rhoi dyletswydd ar unrhyw bersonau sy'n arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf i geisio hyrwyddo llesiant pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth. Mae'r Ddeddf yn diffinio llesiant, ac mae'r diffiniad hwnnw'n cynnwys "sichrau hawliau a hawlogaethau". I lawer o siaradwyr Cymraeg, bydd sichrau hawliau a hawlogaethau yn golygu defnyddio eu hiaith eu hunain i allu cyfathrebu a chwarae rhan fel partneriaid cyfartal yn eu gofal.²

Roedd Strategaeth Iechyd Meddwl flaenorol Cymru, [Law yn Llaw at Iechyd Meddwl](#), yn cynnwys ymrwymadau penodol o ran darparu gwasanaethau iechyd meddwl

¹ *Mwy na geiriau* yw fframwaith strategol Llywodraeth Cymru i gryfhau gwasanaethau Cymraeg ym meysydd iechyd a gofal cymdeithasol. Mae pobl yn gallu teimlo'n fregus wrth ddefnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ac yn teimlo'n ddihyder wrth holi am wasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg. Felly mae'r Cynnig Rhagweithiol yn golygu darparu gwasanaeth yn Gymraeg heb i rywun orfod gofyn amdano. Mae [cynllun pum mlynedd \(2022-2027\)](#) fframwaith *Mwy na geiriau* yn nodi ymrwymadau allweddol ar gyfer cyflawni'r fframwaith strategol.

² Llywodraeth Cymru (2014) [Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg](#) Rhan 2 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014

dwieithog a gweithio gyda'r byrddau iechyd i feithrin capasiti a gallu. Yn wir, cydnabyddir bod rhai pobl â llesiant emosiynol gwael a/neu gyflyrau iechyd meddwl yn arbennig o fregus oherwydd gall eu gofal ddiodef os na chânt eu trin yn eu mamiaith.³ Mae'n arbennig o bwysig dileu'r cyfrifoldeb ar ddefnyddwyr gwasanaethau i ofyn am wasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg, a sicrhau bod hyn yn cael ei gynnig gan y gwasanaeth ei hun. Enw'r egwyddor hwn yw'r "Cynnig Rhagweithiol". Dyma sut y caiff ei nodi yng Nghynllun Pum Mlynedd Mwy Na Geiriau: "Llesiant yr unigolyn sy'n bwysig mewn gwasanaethau iechyd meddwl, felly mae angen i ni feddwl am yr hyn sy'n bwysig i'r unigolyn, nid dim ond gwneud yr un pethau rydym wedi'u gwneud erioed oherwydd mai dyna sy'n teimlo'n gyfforddus i ni. Wedi'r cyfan, ym maes iechyd meddwl mae siarad eich iaith eich hun yn rhan o'r therapi."⁴

Mae Cod Ymarfer Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 – y fframwaith deddfwriaethol ar gyfer cyrchu gwasanaethau a chymorth iechyd meddwl yng Nghymru – yn tynnu sylw at yr angen i ystyried anghenion ieithyddol unigolion yn ofalus wrth deilwra cydgysylltu gofal i ddiwallu anghenion grwpiau penodol. I fanylu: "Rhaid sefydlu proses gyfathrebu glir o ran iaith a diwylliant er mwyn sicrhau bod cleifion perthnasol a gofawyr yn cael eu cynnwys o ddifrif, a'u bod yn derbyn y gofal a'r driniaeth orau bosibl. Yng Nghymru, mae hyn hefyd yn golygu y dylid cymryd pob cam bosibl i sicrhau bod gwasanaethau dwyieithog (Cymraeg a Saesneg) ar gael."⁵

Y disgwyl yw y bydd gwasanaethau iechyd meddwl yng Nghymru yn seiliedig ar yr egwyddor y caiff y Gymraeg a'r Saesneg eu trin ar y sail eu bod yn gyfartal: "Mae Llywodraeth Cymru yn gadarnhaol o blaid y Gymraeg a manteision ddwyieithrwydd, ac mae'n cydnabod bod gwasanaethau dwyieithog yn hanfodol i ddarparu gofal o ansawdd da ac i asesu, trin a chynllunio gofal cleifion perthnasol yn effeithiol... Pan fo'n bosibl, dylai cleifion perthnasol allu dewis cael asesiad, triniaeth a gwybodaeth yn y Gymraeg... dylid cymryd pob cam bosibl i sicrhau bod gwasanaethau ar gael i siaradwyr Cymraeg yn yr iaith sy'n diwallu eu hanghenion penodol eu hunain orau, a bod gwasanaethau'n cael eu datblygu'n briodol ac yn cael y cymorth priodol er mwyn eu darparu yn Gymraeg ac yn Saesneg." Yn ogystal: "Dylai byrddau iechyd ac awdurdodau lleol hyrwyddo'r gwasanaethau dwyieithog sydd eisoes ar gael a chynyddu eu gallu i ddarparu gwasanaethau dwyieithog pan fo prinder staff sy'n siarad Cymraeg. Mae'n ddyletswydd ar fyrddau iechyd ac awdurdodau lleol i gynnig y gwasanaeth priodol yn hytrach na bod yn rhaid i'r claf perthnasol ofyn amdano."⁶

Mae'r ffocws hwn ar degwch mynediad, profiad a chanlyniadau yn un o'r egwyddorion craidd sy'n sail i Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol (2024-2025). Yn benodol, rydym wedi nodi:

³ Llywodraeth Cymru ac Addysg Cymru (Mawrth 2021) Fframwaith ar sefydlu dull ysgol gyfan ar gyfer llesiant emosiynol a meddyliol

⁴ Mwy na geiriau: cynllun y Gymraeg mewn iechyd a gofal cymdeithasol | LLYW.CYMRU Rhagair (tudalen5).

⁵ Cod Ymarfer ar Rannau 2 a 3 o Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 Tudalen 7

⁶ Cod Ymarfer ar Rannau 2 a 3 o Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 Paragraff 1.11

Tegwch mynediad, profiad a chanlyniadau heb wahaniaethu: sicrhau bod gwasanaethau a chymorth yn hygyrch ac yn briodol i bawb. Mae hyn yn golygu deall y rhwystrau y mae pobl yn eu hwynebu, a rhoi systemau angenrheidiol ar waith fel bod tegwch o ran profiadau a chanlyniadau pan fydd pobl yn cael cymorth. Er mwyn cyflawni hyn, bydd angen i'r cymorth a'r gwasanaethau fod yn briodol yn ddiwylliannol ac yn briodol i oedran, ac yn diwallu anghenion siaradwyr Cymraeg, lleiafrifoedd ethnig, cymunedau LHDTTC+, pobl â cholled synhwyraidd, pobl niwrowahanol a phobl sy'n profi tlodi.

O ran cynllunio gofal a thriniaeth – mae anghenion cymdeithasol, diwylliannol neu ysbrydol unigolyn yn cael eu hystyried yn benodol, gyda Chod Ymarfer Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 yn datgan bod “angen i'r broses ar gyfer cytuno ar ganlyniadau ystyried a chydabod hunaniaeth ddiwylliannol y claf perthnasol yn llawn” ac y dylai “gwasanaethau geisio sicrhau bod darpariaeth i ddiwallu anghenion diwylliannol y claf perthnasol fel sy'n briodol. Fel yn achos pob cymuned arall, dylid nodi bod anghenion ieithyddol a diwylliannol yn cydblethu yn y gymuned Gymraeg, ac felly dylid ystyried iaith fel rhan o'r anghenion diwylliannol” (paragraff 4.74). Yn ogystal: “Dylai'r wybodaeth a gaiff ei rhoi fod mewn iaith a fformat sy'n briodol ac yn hawdd eu deall” (paragraff 7.17). Mae'r adran ar Gynllunio Gofal a Thriniaeth yn Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol (2024-2034) yn cyfeirio'n benodol at sut: Mae'n rhaid i Gynlluniau Gofal a Thriniaeth hefyd nodi manylion y gwasanaethau sydd i'w darparu, neu'r camau sydd i'w cymryd, i sicrhau'r canlyniadau arfaethedig (gan gynnwys pa bryd a chan bwy y mae'r gwasanaethau hynny i'w darparu neu y mae'r camau hynny i'w cymryd) ac unrhyw ofynion o ran iaith neu gyfathrebu (gan gynnwys defnyddio'r Gymraeg).

Ymgysylltu cyn-ymgyngori – a'r hyn a ddywedodd rhanddeiliaid am eu dewis iaith

Dros y ddwy neu dair blynedd diwethaf, mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu sawl adolygiad i ymgysylltu ag ystod o wasanaethau, defnyddwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid i helpu i lunio blaenoriaethau ar gyfer olynnydd y strategaethau Law yn Llaw at Iechyd Meddwl a Siarad â Fi 2. Ym mis Gorffennaf 2023, ac er mwyn llywio ein ffordd o feddwl ymhellach, cyhoeddwyd datganiadau o weledigaeth drafft ac egwyddorion ategol ar gyfer Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol (2024-2034). Rhannwyd deunyddiau ategol a fideos i'w defnyddio fel rhan o sesiynau ymgysylltu ac i'w defnyddio gan rhanddeiliaid, a chyhoeddwyd [arolwg ar-lein](#) hefyd i gasglu barn ar y datganiadau gweledigaeth drafft a'r egwyddorion drafft (gan dderbyn dros 250 o ymatebion). Gyda'r bwriad o sicrhau cysondeb â strategaethau allweddol eraill, ystyriwyd adborth yn ogystal gan rhanddeiliaid yr ymgysylltu cyn-ymgyngori a gynhaliwyd mewn perthynas â'r Strategaeth Tlodi Plant ddrafft. Ymgysylltwyd hefyd â'n Bwrdd Partneriaeth Cenedlaethol, Cynghrair Iechyd Meddwl Cymru, Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Iechyd Meddwl Lleiafrifoedd Ethnig, Fforwm Defnyddwyr Gwasanaethau Iechyd Meddwl a Gofalwyr, y Grŵp Rhanddeiliaid Ieuenctid Cenedlaethol, y Grŵp Cynghori Cenedlaethol ar Atal Hunanladdiad,

Rhwydweithiau Amenedigol, Grŵp Goruchwylio Gweithrediad ac Effaith ym Maes Dementia a Grŵp Dysgu a Datblygu Dementia.

Mae'r ymgysylltu cyn-ymgyngori a'r adborth gan randdeiliaid hyd yma wedi helpu i lywio'r gwaith o ddatblygu'r pedwar datganiad o weledigaeth a'r egwyddorion sylfaenol ar gyfer Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol (2024-2034), yn ogystal â chymau gweithredu ategol. Mae'r materion allweddol a godwyd gan randdeiliaid mewn perthynas â'r Gymraeg yn ystod yr ymgysylltu cyn ymgyngori yn cynnwys:

- Mae angen i wasanaethau ystyried y Gymraeg a chymorth lleol yng Nghymru.
- Mae gofyniad am ddarpariaeth gwasanaethau iechyd meddwl yn y Gymraeg.
- Mae'n hanfodol bod Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol (2024-2034) yn adlewyrchu'n llawn ac yn ystyried anghenion ieithyddol y boblogaeth.
- Mae canolbwyntio ar yr unigolyn (a rhoi'r person wrth galon gofal, cymorth a thriniaeth) yn hanfodol.
- Mae sicrhau ansawdd a diogelwch y ddarpariaeth yn hanfodol, gan sicrhau ei fod yn arwain at ganlyniadau cadarnhaol.
- Cafwyd galwadau penodol am fynediad teg sy'n darparu gwasanaethau a chymorth hygyrch a phriodol – sy'n diwallu anghenion ein holl gymunedau.
- Cafwyd galwadau penodol am ddefnyddio iaith briodol wrth drafod iechyd meddwl.
- Cafwyd galwadau penodol am ffocws ar gyfathrebu.

Disgrifiwch ac eglurwch effaith y cynnig ar y Gymraeg, ac eglurwch sut y byddwch yn mynd i'r afael â'r effeithiau hyn er mwyn gwella canlyniadau ar gyfer y Gymraeg.

Sut y bydd y cynnig yn effeithio ar siaradwyr Cymraeg o bob oed (effeithiau cadarnhaol a/neu andwyol)? Dylech nodi eich ymateb i'r canlynol wrth ateb y cwestiwn hwn, yn ogystal â chynnwys unrhyw wybodaeth berthnasol arall:

Mae Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol (2024-2034) yn strategaeth i bob oed, a rhagwelir y bydd yn cael effaith gadarnhaol ar siaradwyr Cymraeg o bob oed.

Nodau Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol (2024-2034) – mewn perthynas â'r Gymraeg

Bydd Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol (2024-2034) yn cefnogi gwella hygyrchedd gwasanaethau a chymorth iechyd meddwl a llesiant meddyliol drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd yn gwneud hyn drwy brif ffrydio ystyriaethau Cymraeg i ddatblygiadau gweithlu, a phrosesau cynllunio.

Mae Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol (2024-2034) newydd yn nodi pedwar datganiad o weledigaeth ar gyfer iechyd meddwl a llesiant meddyliol – a nifer o egwyddorion ategol.

Datganiad o weledigaeth 1: Mae pobl yn meddu ar yr wybodaeth, yr hyder a'r cyfleoedd i ddiogelu a gwella iechyd meddwl a llesiant meddyliol. Bydd sicrhau bod adnoddau a chyfleoedd ar gael yn Gymraeg / dewis iaith unigolyn yn allweddol i'r datganiad o weledigaeth hwn.

Datganiad o weledigaeth 2: Mae gweithredu'n digwydd ar draws y Llywodraeth i ddiogelu iechyd meddwl a llesiant meddyliol cadarn. O fewn Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol (2024-2034) – mae gweithredu ar draws y Llywodraeth i wella iechyd meddwl a llesiant meddyliol yn cael ei fframio o fewn cyd-destun Egwyddorion Marmot, sy'n canolbwyntio ar roi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn; galluogi pob plentyn, person ifanc ac oedolyn i fanteisio i'r eithaf ar ei alluoedd a sicrhau rheolaeth dros ei fywyd; creu cyflogaeth deg a gwaith da i bawb; sicrhau safon byw iach i bawb; creu a datblygu lleoedd a chymunedau iach a chynaliadwy; a chryfhau rôl ac effaith atal afiechyd. Bydd y Gymraeg yn berthnasol ar draws egwyddorion Marmot, a bydd y polisïau a'r rhaglenni unigol sy'n cefnogi eu darpariaeth wedi ystyried effeithiau ar y Gymraeg.

Datganiad o weledigaeth 3: Mae system gysylltiedig lle bydd pawb yn cael y lefel briodol o gymorth ble bynnag y maent yn ei geisio. Ein nod cyffredinol yw sicrhau bod yr holl wasanaethau hyn yn gweithio gyda'i gilydd i ddarparu gwasanaeth cydgysylltiedig sy'n hawdd ei gyrchu ac sy'n hawdd ei ddefnyddio.⁷ Dylai gwasanaethau gefnogi pobl i ddod o hyd i'r cymorth cywir, yn y lle cywir, ar yr adeg gywir. Yn Natganiad o Weledigaeth 3, er mwyn cyflawni "system gysylltiedig", rydym wedi nodi bod angen i wasanaethau weithredu fel a ganlyn: "Fel rhan o'r Cynnig Rhagweithiol o wasanaethau Cymraeg, sicrhau bod y dewis iaith yn cael ei gofnodi a'i basio ymlaen rhwng gwahanol wasanaethau."

Datganiad o weledigaeth 4: Mae gwasanaethau iechyd meddwl yn ddi-dor – yn canolbwyntio ar yr unigolyn, yn cael eu harwain gan angen ac yn cyfeirio at y cymorth cywir y tro cyntaf yn ddi-oed. Mae hyn yn ymwneud â darparu mynediad at wasanaethau iechyd meddwl o safon sy'n seiliedig ar dystiolaeth i bawb a fyddai'n elwa arnynt, ac i'r gwasanaethau hynny ganolbwyntio ar ganlyniadau ac adferiad i bobl â chyflyrau iechyd meddwl ysgafn i gymedrol yn ogystal â phobl â chyflyrau iechyd meddwl difrifol a pharhaus. Rydym wedi datgan: "Rydym eisiau gweld gwasanaethau iechyd meddwl gyda ffocws ar yr unigolyn, sy'n canolbwyntio ar adferiad, sy'n cael eu llywio gan drawma, ac sy'n hyrwyddo'r Cynnig Rhagweithiol." Bydd Gweithrediaeth GIG Cymru yn datblygu **Rhaglen Strategol ar gyfer Iechyd Meddwl a Rhwydweithiau Clinigol Strategol** gyda ffocws cryf ar wella ansawdd gwasanaethau iechyd meddwl yng Nghymru. Rydym wedi dweud y bydd hyn yn

⁷ Gelwir hyn weithiau yn 'dull system gyfan'.

cynnwys cyflawni: **Gwasanaethau teg**: Bydd ein system iechyd meddwl yn rhoi cyfle cyfartal i bawb gyrraedd eu potensial llawn am fywyd iach. Ni fydd ei ansawdd yn amrywio yn ôl y sefydliad sy'n darparu gofal, lleoliad darparu'r gofal neu nodweddion personol (megis oedran, rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, hil, dewis iaith, anabledd, crefydd neu gredoau, statws economaidd-gymdeithasol neu ymlyniad gwleidyddol). Rydym yn ymgorffori cydraddoldeb a hawliau dynol yn ein system gofal iechyd, ac yn parhau i hyrwyddo a sicrhau bod y Cynnig Rhagweithiol ar waith.

Sut y bydd y cynnig yn effeithio ar gynaliadwyedd cymunedau Gymraeg⁸ (effeithiau cadarnhaol a/neu andwyol)?

Bydd y polisïau a'r rhaglenni sy'n sail i'r strategaeth yn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg. Er enghraifft, bydd effeithiau cadarnhaol ar y Gymraeg a siaradwyr Cymraeg drwy ddarparu gwasanaethau ac adnoddau penodol yn Gymraeg, ac argaeledd a chyhoeddi ymgyrchoedd gwybodaeth a chyfathrebu dwyieithog. Bydd effeithiau cadarnhaol ar yr unigolyn hefyd pan fydd yn gallu cael gafael ar wasanaethau, adnoddau a chymorth yn ei ddewis iaith.

Sut y bydd y cynnig yn effeithio ar addysg Gymraeg a dysgwyr Cymraeg o bob oed, gan gynnwys oedolion (effeithiau cadarnhaol a/neu andwyol)?

Enghreifftiau o effeithiau cadarnhaol:

Conglfaen sylfaenol i gyflawni'r strategaeth yw Cynllun Gweithlu Iechyd Meddwl Strategol AaGIC a Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae hyn yn cynnwys ymrwymiadau penodol i ddatblygu'r capasiti a'r gallu i wella'r ddarpariaeth Gymraeg mewn gwasanaethau iechyd meddwl. Bydd Cynllun Gweithlu Iechyd Meddwl Strategol AaGIC a Gofal Cymdeithasol Cymru yn llywio strategaethau recriwtio a chadw staff a hyfforddi a fydd yn sicrhau cynaliadwyedd gweithlu iechyd meddwl y Gymraeg. Gofynnir i fyrdau iechyd adrodd ar sut maent yn gwella'r ddarpariaeth Gymraeg mewn gwasanaethau iechyd meddwl, gan gynnwys darparu'r Cynnig Rhagweithiol, un o egwyddorion allweddol *Mwy Na Geiriau*.⁹

Mae Cynllun Gweithlu Iechyd Meddwl Strategol AaGIC a Gofal Cymdeithasol Cymru yn datgan: "Mae'r cynllun gweithlu iechyd meddwl strategol yma'n cynnig cyfle heb ei ail i ni helpu i gryfhau system iechyd meddwl di-dor sy'n tynnu timau amlbroffesiwn ac aml-asiantaeth ynghyd trwy wasanaethau iechyd meddwl sy'n troi o gylch yr unigolyn... Wrth i'n poblogaeth heneiddio, rydyn ni'n gwybod y bydd mwy o newid mewn anhwylderau tymor hir a chymhleth, ac mae hynny'n golygu ein bod ni'n debygol o weld cynnydd yn nifer y bobl sy'n dioddef o afiechyd meddwl yn dioddef o amrywiaeth o anhwylderau corfforol hefyd, felly mae angen i ni sicrhau bod y cynllun hwn yn helpu i sicrhau llythrennedd iechyd meddwl ar draws ein gweithlu iechyd a

⁸ Gall y rhain fod yn gymunedau clos yng nghefn gwlad, mewn rhwydweithiau cymdeithasol gwasgaredig mewn trefi ac mewn rhith-gymunedau nad ydynt yn cael eu cyfyngu gan ddaearyddiaeth.

⁹ *Mwy na geiriau* yw fframwaith strategol Llywodraeth Cymru i gryfhau gwasanaethau Gymraeg ym meysydd iechyd a gofal cymdeithasol. Mae pobl yn gallu teimlo'n fregus wrth ddefnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ac yn teimlo'n ddihyder wrth holi am wasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg. Felly mae'r Cynnig Rhagweithiol yn golygu darparu gwasanaeth yn Gymraeg heb i rywun orfod gofyn amdano.

gofal cymdeithasol. Rydyn ni'n cydnabod hefyd fod angen diwallu anghenion ieithyddol ein poblogaeth – fel bod gofal ar gael yn Gymraeg i'r rhai sydd ei angen.”¹⁰ Mae'r gwaith sy'n cael ei wneud fel rhan o Gynllun Gweithlu Strategol newydd AaGIC a Gofal Cymdeithasol Cymru yn cynnwys (o 2022) contractau addysg newydd sy'n gosod disgwyliadau clir gan y darparwr addysg mewn perthynas â'r cymorth Gymraeg y gall pob myfyriwr ddisgwyl ei weld. Mae hyn yn cynnwys derbyn gwaith ysgrifenedig fel rhan o asesiad neu arholiad yn Gymraeg, asesu sgiliau ar ddechrau cwrs, darparu cyfleoedd i ddysgu Gymraeg neu ddatblygu sgiliau presennol.

I blant a phobl ifanc, polisi allweddol sy'n cefnogi plant a phobl ifanc, a staff, mewn ysgolion yng Nghymru, yw'r [Fframwaith ar sefydlu dull ysgol gyfan ar gyfer llesiant emosiynol a meddyliol](#). Mae'r dull ysgol gyfan yn ceisio cefnogi llesiant emosiynol a meddyliol da drwy hyrwyddo amgylchedd diwylliannol cadarnhaol mewn ysgolion, lle mae plant a phobl ifanc yn meithrin perthnasoedd cadarnhaol â staff a dysgwyr eraill; a lle mae perthnasoedd yn cael eu cryfhau rhwng staff addysgu, gydag uwch dîm arwain yr ysgol a staff ehangach yr ysgol, gyda rhieni a gofalwyr, gyda gweithwyr proffesiynol eraill sy'n gweithio gyda'r ysgol, a chyda'r gymuned ehangach o gwmpas yr ysgol. Mae'r Fframwaith yn cydnabod: “Mae'n hanfodol sicrhau tegwch o ran y gwasanaethau a ddarperir yn y ddwy iaith, yn unol â gofynion Safonau'r Gymraeg, a dylai'r ddarpariaeth honno adlewyrchu natur ieithyddol yr ysgol a'i dalgylch. I lawer, Cymraeg yw eu hiaith feunyddiol. Dylai ysgolion sicrhau bod ymyriadau ar gael yn Gymraeg a dylent ystyried dewisiadau ieithyddol eu dysgwyr wrth ddatblygu ymyriadau a chymorth. Byddai hefyd o fudd pe bai cyfleoedd hyfforddi a chymorth Cymraeg ar gael yn y gweithle'n hawdd.”¹¹

Mae 111 Pwyso 2 yn wasanaeth newydd sydd ar gael i bobl o bob oed, 24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos ym mhob rhan o Gymru er mwyn sicrhau bod y rhai sydd angen cymorth yn gallu cael gafael arno yn gyflym pan fydd ei angen fwyaf. Os oes angen i rywun siarad â rhywun ar frys am ei iechyd meddwl, neu os yw'n poeni am aelod o'r teulu, gall alw GIG 111 Cymru a dewis opsiwn 2 i gael ei roi mewn cysylltiad uniongyrchol â gweithiwr iechyd meddwl proffesiynol yn ei ardal. Mae gwasanaeth 111 Pwyso 2 yn ddwyieithog, ac mae'n cyd-fynd â Llinell Gymorth Iechyd Meddwl CALL sydd hefyd yn darparu llinell gymorth gwrando a chymorth gyfrinachol ddwyieithog i bobl Cymru.

Mae gwaith yn cael ei wneud i ddatblygu set ddata graidd iechyd meddwl. Bydd hyn yn sicrhau bod unrhyw ddata sy'n cael ei gasglu yn gadarn ac yn addas i'r diben, a bydd yn cynnwys blaenoriaethu data demograffig, megis oedran, rhywedd, dewis iaith ac ethnigrwydd. Bydd hyn yn cefnogi ein gallu i gynllunio gwasanaethau yn seiliedig ar anghenion a gofynion ein poblogaeth.

Sut y bydd y cynnig yn effeithio ar y gwasanaethau¹² sydd ar gael yn Gymraeg (effeithiau cadarnhaol a/neu andwyol)? (e.e. iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, trafndiaeth, tai, digidol, ieuencid, seilwaith, amgylchedd, llywodraeth leol ac ati)

¹⁰ [AaGIC \(2022\) Cynllun Gweithlu Iechyd Meddwl Strategol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol](#) (tudalen 18).

¹¹ [Fframwaith ar sefydlu dull ysgol gyfan ar gyfer llesiant emosiynol a meddyliol](#)

¹² Nod Strategaeth y Gymraeg yw cynyddu'r ystod o wasanaethau a gynigir i siaradwyr Cymraeg, ac i gynyddu'r defnydd o wasanaethau Cymraeg.

Mae camau gweithredu yn Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol (2024-2034) sy'n cefnogi gwella mynediad at wasanaethau iechyd meddwl Cymraeg yn uniongyrchol. Mae'r camau gweithredu hyn yn cynnwys:

- **DoW4.1** Datblygu datganiad ansawdd integredig ar gyfer datganiadau iechyd meddwl ac ansawdd unigol sy'n gosod y safonau ar gyfer yr hyn y mae disgwyl i fyrdau iechyd ac awdurdodau lleol ei ddarparu i sicrhau gwasanaethau iechyd meddwl o ansawdd da.
- **DoW4.2** Bydd y datganiadau ansawdd hyn yn cefnogi dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn galluogi mynediad teg at wasanaethau i'r rhai sydd â nodweddion gwarchoddedig (yn unol â'r disgrifiad yn Neddff Cydraddoldeb 2010) a'r dewis iaith. Byddant hefyd yn cynnwys sut mae gwasanaethau'n ymateb i bobl sydd ag anghenion iechyd meddwl sy'n cyd-ddigwydd.
- **DoW4.11** Cyflawni ein hymrwymiad yn Mwy Na Geiriau i ddatblygu adnoddau i gefnogi prif ffrydio ystyriaethau iaith Gymraeg i brosesau cynllunio a llunio polisiau iechyd meddwl.
- **SIM 3** Parhau i ddatblygu set ddata craidd iechyd meddwl. [Bydd hyn yn cynnwys data ar y Gymraeg – i gefnogi ein gallu i gynllunio gwasanaethau yn seiliedig ar anghenion a gofynion ein poblogaeth.]
- **SIM 7** Trwy'r cynllun gweithlu, canolbwyntio ar gynyddu amrywiaeth ein gweithlu a darparu'r sgiliau a'r wybodaeth i gyflenwi cymorth diwylliannol sensitif a phriodol gan gynnwys, lleiafrifoedd ethnig, y gymuned LHDTTC+ a siaradwyr Cymraeg.
- **SIM 15** Datblygu dull safonol o ddarparu gwybodaeth am wasanaethau iechyd meddwl a sut i gael gafael arnynt (ac wrth wneud hynny - hyrwyddo'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg a sicrhau bod yr holl wybodaeth yn cydymffurfio â Safonau Cymru Gyfan ar gyfer Darparu Gwybodaeth Hygyrch i Bobl â Nam ar eu Synhwyrâu a Chyfathrebu â Hwyl, ac sy'n addas ar gyfer plant a phobl ifanc lle bo hynny'n briodol).

Sut y byddwch yn sicrhau bod pobl yn ymwybodol o'r gwasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg a'u bod yn gallu cael mynediad atynt a'u defnyddio mor rhwydd â gwasanaethau Saesneg?

Roedd cyfathrebu yn thema bwysig a godwyd gan randdeiliaid yn ystod yr ymgysylltu cyn-ymgyngori. O fewn Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol (2024-2034), mae adran benodol lle mae'r ffocws ar gyfathrebu, lle rydym wedi nodi'r canlynol:

Er mwyn gweithredu'r strategaeth hon yn llwyddiannus, mae angen i'n gweledigaeth gael ei chyfathrebu'n effeithiol. Mae angen i'r cyhoedd allu deall sut mae'r system yn gweithio, er mwyn sicrhau bod eglurder ynghylch mynediad at gymorth a gwasanaethau, beth y gall pobl ei ddisgwyl, a'r canlyniadau a ragwelir.

Yn ystod y flwyddyn neu ddwy ddiwethaf, rydym wedi datblygu dull gweithredu i dynnu sylw at y cymorth sydd ar gael yn genedlaethol ac yn rhanbarthol, ond gwyddom fod angen gwneud mwy i sicrhau bod yr wybodaeth hon yn gyson, yn hygyrch ac yn hawdd ei deall a'i defnyddio, er mwyn osgoi creu rhwystrau i bobl gael mynediad at y cymorth sydd ei angen arnynt.

Gwyddom hefyd fod angen i'r cyfathrebu hwn ystyried anghenion penodol unigolion a grwpiau. Mae hyn yn cynnwys parhau i hyrwyddo'r Cynnig Rhagweithiol, er mwyn sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn gallu cael mynediad at y system mewn ffordd sy'n sicrhau'r canlyniadau iechyd gorau iddynt.

Rydym yn cydnabod bod anghysondebau'n gallu codi o ran yr iaith y mae pobl yn ei defnyddio i ddisgrifio iechyd meddwl, a bod hynny'n gallu arwain at gamsyniadau, a methiant i fodloni disgwyliadau ynghylch y cymorth sydd ar gael. Mae'r strategaeth hon yn ceisio sefydlu iaith gyffredin ar gyfer sôn am ein hiechyd meddwl a'n llesiant meddyliol.

Dyma'r camau sydd wedi cael eu cynnwys yn y Strategaeth i gefnogi'r ffocws hwn ar gyfathrebu:

- **SIM 14** Parhau i ddatblygu a gwreiddio iaith gyffredin gyson ar gyfer iechyd meddwl a'r derminoleg a ddefnyddiwn.
- **SIM 15** Datblygu dull safonol o ddarparu gwybodaeth am wasanaethau iechyd meddwl a sut i gael gafael arnynt (ac wrth wneud hynny - hyrwyddo'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg a sicrhau bod yr holl wybodaeth yn cydymffurfio â Safonau Cymru Gyfan ar gyfer Darparu Gwybodaeth Hygyrch i Bobl â Nam ar eu Synhwyrâu a Chyfathrebu â Hwyl, ac sy'n addas ar gyfer plant a phobl ifanc lle bo hynny'n briodol).
- **SIM 16** Sicrhau bod yr holl wybodaeth ar gyfer cleifion yn cael ei hadolygu i sicrhau ei bod yn canolbwyntio ar y person, yn hygyrch ac yn briodol.

Yn ogystal – ac i gefnogi Datganiad o Weledigaeth 1, rydym wedi cynnwys yr ymrwymadau canlynol:

- **DoW1.2:** Gwella llythrennedd iechyd meddwl drwy adeiladu ar y cyngor sydd eisoes ar gael i'r cyhoedd o ran rheoli meddyliau a theimladau. Cyfleu, mewn ffordd sy'n sensitif yn ddiwylliannol, y dystiolaeth ddiweddaraf ar ddiogelu a hyrwyddo iechyd meddwl a llesiant meddyliol.
- **DoW1.7:** Hyrwyddo ffyrdd (gan gynnwys presgripsiynu cymdeithasol, opsiynau digidol a dulliau amgen) i gynyddu gwybodaeth ac ymwybyddiaeth y cyhoedd o asedau cymunedol lleol.

Pa dystiolaeth / data y gwnaethoch eu defnyddio i lywio eich asesiad, gan gynnwys tystiolaeth gan siaradwyr Cymraeg neu grwpiau â diddordeb yn y Gymraeg?

Wrth ddatblygu drafft Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant (2024-2034), rhoddwyd ystyriaeth i farn rhanddeiliaid a ddarparwyd yn ystod yr ymgysylltu cyn-ymgyngori

ym mis Gorffennaf 2023 (gweler adran “Ymgysylltu cyn-ymgyngori - a’r hyn a ddywedodd rhanddeiliaid am eu dewis iaith” o’r Asesiad o’r Effaith ar y Gymraeg).

Mae gwaith ymchwil presennol ar iechyd meddwl a’r Gymraeg hefyd wedi cael ei ystyried, gweler isod.

- Mae Papur Hysbysu Tystiolaeth gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru (2021) yn tynnu sylw at y ffaith fod y “gallu i siarad Cymraeg yn gysylltiedig â llesiant goddrychol uwch. Mae siaradwyr Cymraeg yn fwy tebygol o gymryd rhan mewn digwyddiadau celfyddydol a chwaraeon, ac mae siaradwyr rhugl yn llawer mwy tebygol o fynychu digwyddiadau a gyflwynir drwy’r Gymraeg.” ([Llywodraeth Cymru, 2018](#)). Mae siaradwyr Cymraeg hefyd yn nodi lefelau uwch o foddhad â bywyd o gymharu â phobl nad ydynt yn medru’r Gymraeg ([Browne Gott, 2020](#)).
- Yn ôl yr adroddiad gan Brown Gott (2020) - sy’n defnyddio data 2017/18 o Arolwg Cenedlaethol Cymru: “Gall p’un a all rhywun ddarllen, siarad ac ysgrifennu Cymraeg hefyd fod â pherthynas â llesiant a chyfranogiad diwylliannol. Mae siaradwyr Cymraeg ychydig yn fwy tebygol o fod wedi mynychu gweithgareddau diwylliannol neu gymryd rhan ynddynt dair gwaith neu fwy y flwyddyn (79% o’i gymharu â 72%). Mae siaradwyr Cymraeg hefyd yn nodi lefelau fymryn yn uwch o foddhad â bywyd o gymharu â phobl nad ydynt yn medru’r Gymraeg. Mae 86% o siaradwyr Cymraeg yn nodi lefelau uchel neu uchel iawn o foddhad â bywyd o’i gymharu ag 81% o bobl nad ydynt yn medru’r Gymraeg. Gall y ffigurau hyn ddangos bod ffactor sylfaenol a allai ysgogi lefel uwch o foddhad â bywyd a mwy o gyfranogiad diwylliannol ymhlith siaradwyr Cymraeg.”¹³

Pa dystiolaeth arall fyddai’n eich helpu i gynnal asesiad gwell?

Bydd cwestiynau safonol ynghylch effaith y polisi ar y Gymraeg yn cael eu gofyn fel rhan o’r broses ymgynghori ffurfiol. Mae Safonau’r Gymraeg a osodir ar Lywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol iddi roi ystyriaeth lawn wrth wneud penderfyniadau polisi i unrhyw effaith bosibl ar y Gymraeg, ym mhob maes polisi, er mwyn sicrhau bod polisiau mwy cadarn ar waith sy’n cyd-fynd â’r dyhead o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Hefyd, mae’n sicrhau nad oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol i bolisiau Llywodraeth Cymru a dim effeithiau niweidiol ar y Gymraeg.

Sut y byddwch yn gwybod a yw eich polisi yn llwyddiant?

Mae “damcaniaeth newid” yn cael ei datblygu ar gyfer Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol (2024-2034). Bydd y ddamcaniaeth newid yn nodi’r mecanweithiau a fwriadwyd i sicrhau y bydd y strategaeth yn cyflawni ei chanlyniadau. Bydd yn cael ei defnyddio fel sail ar gyfer cynllunio gwerthusiad o’r strategaeth. Y bwriad yw comisiynu gwerthusiad o’r strategaeth maes o law.

Yn y strategaeth drwyddi draw, rydym hefyd wedi nodi nifer o ddangosyddion mesuradwy y byddwn yn eu monitro fel rhan o weithredu’r strategaeth. Bydd y rhain,

¹³ [Archwilio’r berthynas rhwng diwylliant a llesiant \(llyw.cymru\)](#)

a dangosyddion pellach sydd eto i'w nodi, hefyd yn cefnogi'r gwaith o werthuso'r strategaeth pan gânt eu comisiynu.

Tîm Iechyd Meddwl a Grwpiau Bregus, Llywodraeth Cymru (Tachwedd 2023)